CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd drwy gyfleuster fideo-gynadledda ddydd Mawrth 19 Hydref 2021 am 10am.

YN BRESENNOL

Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Sylwedyddion: Y Cynghorwyr Rhys Thomas ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Cymunedau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid (LG) a Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW); Rheolwr Prosiect Swyddfa'r Rhaglenni Corfforaethol (PC) a Gweinyddwyr Pwyllgor (KEJ a SLW [Gweddarlledwr])

PWYNT SYLW

Yn absenoldeb yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, cadeiriodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, y cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYS

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021.

PENDERFYNWYD *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021 fel cofnod cywir.*

5 SYSTEM BRYNU DDEINAMIG FFRAMWAITH DYLUNIO GRAFFEG AC ARGRAFFU

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad i geisio derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cyflenwyr i'w cynnwys ar fframwaith y System Brynu Ddeinamig newydd ar gyfer dylunio ac argraffu. Mae'r System Brynu Ddeinamig yn system ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a gan fod y gwariant amcangyfrifedig yn fwy na £4 miliwn mae angen cymeradwyaeth y Cabinet.

Ar 23 Mawrth 2021 rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i hysbysebu'r fframwaith newydd hwn ar gyfer dylunio graffeg, argraffu, baneri ac arwyddion, cynllun lliwiau cerbydau ac argraffu arbenigol ar draws 5 'lot' caffael dros gyfnod o chwe blynedd ar y cyd â Sir y Fflint. Yn dilyn y broses werthuso ddilynol, gofynnir i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i ymrwymo i gontract gyda rhestr o gyflenwyr sydd i'w cynnwys yn y fframwaith newydd sydd wedi'i manylu arni yn yr adroddiad dan y 5 'lot' caffael.

Dywedwyd fod modd ychwanegu at y rhestr fel y bo'n briodol yn ystod y chwe blynedd, yn dilyn proses ymgeisio a gwerthuso. Cadarnhawyd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Tîm Datblygu Busnes ac Economaidd, a'r tîm cyfatebol yn Sir y Fflint, i ymgysylltu gyda chwmnïau lleol er mwyn eu cynnwys yn y fframwaith newydd.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn cymeradwyo rhestr cyflenwyr fframwaith y System Brynu Ddeinamig newydd, sydd wedi'u gwerthuso ac a fanylir arnynt yn yr adroddiad.*

6 DULL ARFAETHEDIG I DENDRO AR GYFER CONTRACT CAM 2 GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF CYNGOR SIR DDINBYCH, YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY, DINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r ymarfer tendro arfaethedig i ddewis prif gontractwr i ddarparu Ail Gam Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd CSDd yn Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.

Mae angen Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff i gefnogi'r newid arfaethedig i gasgliadau gwastraff aelwydydd. Mae manylion yr ymarfer caffael wedi'u nodi yn yr adroddiad, ynghyd â gwerth amcangyfrifedig y contract o £5.2 miliwn sydd o fewn y dyraniad cyllidebol presennol. Darparwyd manylion caniatâd blaenorol ar gyfer agweddau gwahanol o'r newid cyffredinol i'r gwasanaeth casglu gwastraff a manylion y broses dendro ac amlygwyd y dull cydweithio a roddwyd ar waith a manteision y prosiect ehangach i fusnesau lleol ar y safle. Mae'r gymeradwyaeth a geisir yn yr adroddiad yn gam arall yn y broses i hwyluso'r newid arfaethedig i'r gwasanaeth. Byddai dyfarnu'r contract ei hun yn destun adroddiad arall i'r Cabinet yn dilyn y broses dendro, a fyddai hefyd yn cadarnhau trefniadau rheoli contract, costau'r tendr a manylion y contract. Cynghorwyd y Cabinet fod yr amserlenni yn yr adroddiad yn ddynodol ar hyn o bryd ac o ystyried y gwaith sydd angen ei wneud fe all yr amserlen lithro ychydig.

Gofynnwyd ynghylch lleddfu risgiau allweddol a nodwyd a'r posibilrwydd i ymweld â'r safle ac amlygwyd yr angen am gynllun cyfathrebu cadarn ar gyfer trigolion ar yr adeg gywir yn y broses. Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r cwestiynau gan wneud y sylwadau canlynol:

- Roeddynt yn hyderus y bydd cynigion yn cael eu cyflwyno o ystyried y diddordeb sydd wedi'i ddangos eisoes yn y broses dendro
- Mae'r risgiau ariannol, oherwydd eu natur, wedi'u categoreiddio yn risgiau 'uchel' ond mae diwydrwydd dyladwy a gwiriadau ariannol wedi'u cynnal fel rhan o'r broses i reoli'r risg honno
- Mae yna bwysau yn y farchnad o ran prisiau a deunyddiau, sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor, ac fe all hynny gael effaith ar bris tendrau – bydd y costau yn cael eu hadolygu yn hynny o beth.
  Nid oes modd gwybod beth fydd effaith y pwysau hynny ar y farchnad hyd nes byddwn wedi derbyn tendrau ond rydym ni'n ffyddiog y bydd y gyllideb ddyranedig yn gallu cwrdd ag unrhyw gynnydd yn y pris
- Mae'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle a gwaith y Bwrdd Prosiect i oruchwylio a monitro cynnydd a datblygiadau yn darparu sicrwydd
- O ran yr awgrym i drefnu ymweliad safle ar gyfer Aelodau, cynghorodd y swyddogion y byddai gwanwyn/haf yn adeg dda ar ôl cwblhau cam cyntaf y prosiect
- Er nad yw'n rhan o'r adroddiad hwn, roedd y swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu gyda thrigolion ar yr adeg briodol ynglŷn â gweithredu'r model gwastraff newydd, a darparwyd sicrwydd bod cynllun cyfathrebu manwl yn cael ei ddatblygu ar gyfer hynny.
  Dywedwyd y byddai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Model Gwastraff newydd, a fyddai hefyd yn gyfle iddynt drafod y mater ymhellach

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) Cymeradwyo'r ymarfer tendro fel y nodir yn yr adroddiad;

(b) Cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.

7 DYFARNU CONTRACT A NEWIDIADAU POLISI AR GYFER CONTRACT NEWYDD I REOLI EIN CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF

[Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd fod elfen gwerthuso tendr yr adroddiad yn gyfrinachol oherwydd sensitifrwydd masnachol a chynghorodd y Cabinet i gynnal sesiwn gaeedig os ydynt yn dymuno trafod yr elfen honno o'r adroddiad.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad i geisio derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i awdurdodi dyfarnu contract i reoli Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn dilyn proses gaffael ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ac i fabwysiadu Polisi Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar y cyd â CBSC ac atodlen brisiau 2022/23 er mwyn cyflawni'r arbedion mwyaf drwy'r broses

gaffael. Amlygwyd manteision y dull ar y cyd o safbwynt trigolion Sir Ddinbych a Chonwy, yn cynnwys gallu defnyddio canolfannau ailgylchu dros y ffin a chael dewis amgen i hurio sgip i waredu deunyddiau DIY a gwastraff adeiladu am bris rhesymol, a pharhad y system archebu. Hefyd, amlygwyd yr arbedion yn sgil y newidiadau.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol fod prif agweddau'r adroddiad yn ymwneud â dyfarnu contract rheoli canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar draws dwy ardal awdurdod lleol a mabwysiadu cyfres newydd o bolisïau ar ddefnyddio'r canolfannau hynny. Roedd y broses dendro yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r polisïau'n cael eu mabwysiadu ac y byddai incwm yn cael ei gynhyrchu drwy'r polisïau hynny. Felly mae angen cymeradwyo'r ddwy elfen. Yn dilyn pryderon blaenorol ynghylch y cyfyngiad i dri ymweliad y mis mae'r cyfyngiad wedi'i godi i ganiatáu i aelwydydd fynd â nwyddau i ganolfan ailgylchu hyd at chwe gwaith bob deufis er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i drigolion.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad cynhwysfawr ac roeddynt yn falch o nodi'r newid i roi mwy o hyblygrwydd o ran nifer yr ymweliadau yn dilyn y pryderon a godwyd. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Arweiniol fod y system archebu arfaethedig wedi'i datblygu gan CBSC a'r bwriad yw defnyddio'r system honno yn y ddau awdurdod lleol a fyddai'n ddefnyddiol i drigolion, yn cynnwys gallu archebu i fynd i unrhyw ganolfan yn y ddwy sir. Rhoddwyd sicrwydd hefyd y byddai'r darparwr arfaethedig mewn sefyllfa i weithredu'r contract yn llwyddiannus ar 1 Ebrill 2022.

Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd cael cynllun cyfathrebu cadarn i weithredu'r model gwastraff newydd a'r newidiadau cysylltiedig i sicrhau bod trigolion yn ymwybodol ohonynt a'n bod ni'n cadw mewn cysylltiad â nhw er mwyn darparu gwybodaeth, tawelu pryderon a chyfrannu at lwyddiant y prosiect i'r dyfodol. Roedd gan y Cynghorydd Emrys Wynne beth amheuaeth ynghylch y cynigion i godi tâl am dderbyn gwastraff DIY ac adeiladu, a gofynnodd am eglurhad ynghylch y trefniadau codi tâl am eitemau penodol a sut mae modd cyfleu hynny'n briodol i drigolion. Gan gydnabod nad oes yn rhaid i'r Cyngor dderbyn gwastraff nad yw'n wastraff cartref a bod y cynnig hwn yn ehangu'r gwasanaeth, efallai na fyddai codi tâl am rai elfennau yn cael ei ystyried yn ffafriol gan drigolion, yn enwedig os ydynt yn gorfod talu i waredu eitemau a oedd am ddim o'r blaen.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth a darparodd sicrwydd pellach y byddai neges glir yn cael ei chyfleu i drigolion. Eglurodd y broses archebu i fynd i ganolfan ailgylchu, sy'n cynnwys categorïau gwastraff ac yn cadarnhau a oes angen talu – mae'r gweithwyr ar y safle hefyd yn gallu helpu trigolion i wneud dewisiadau gwybodus o ran gwaredu gwastraff a sut. Darparwyd sicrwydd hefyd y byddai staff yn derbyn hyfforddiant priodol i ddelio gydag unrhyw broblem ar y safle. Mae'r broses wedi gweithio'n dda yng Nghonwy heb fawr o broblemau na phryderon, sy'n rhoi ffydd i ni yn y system ac yn darparu gwersi a ddysgwyd. Mae'r polisi newydd ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn diffinio gwastraff cartref a gwastraff nad yw'n wastraff cartref yn glir ac yn cynnwys disgrifiad o'r deunyddiau a'r eitemau y codir tâl amdanynt. Pwysleisiwyd nad yw trigolion yn gorfod talu am wasanaeth a oedd yn rhad ac am ddim yn y gorffennol. Mae'r polisi newydd yn caniatáu i drigolion Sir Ddinbych ddod â faint a fynnir o wastraff nad yw'n wastraff

cartref i'r ganolfan am dâl rhesymol. Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael ar hyn o bryd felly rydym ni'n ehangu i gynnig mwy o ddewisiadau i drigolion.

Er gwaethaf y sicrwydd a ddarparwyd, pwysleisiodd yr Aelodau'r angen am ddarparu eglurder i drigolion ac i godi eu hymwybyddiaeth o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses newydd. Roedd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwasanaeth yn cydnabod y materion a godwyd ac yn hyderus y byddai'r cynllun cyfathrebu yn sicrhau bod neges glir yn cael ei chyfleu i drigolion ynglŷn â gweithredu'r model gwastraff newydd ac unrhyw newid cysylltiedig i wneud yn siŵr eu bod yn deall popeth yn iawn.

PENDERFYNWYD –

(a) Bod y Cabinet yn awdurdodi dyfarnu'r contract i'r cynigydd a ffafrir a nodwyd yn yr Adroddiad Gwerthuso Tendrau ar y cyd (Atodiad 1), ar ôl dangos bod y cynigydd wedi cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, gan nodi y bydd y contract yn cael ei ddyfarnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdod arweiniol;

(b) Cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'u hystyriaethau ac yn nodi y bydd hwn yn cael ei ddiweddaru ar ôl dyfarnu'r contract;

(c) Mabwysiadu'r Polisi Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar y Cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Atodiad 2) o ddyddiad cychwyn y contract;

(d) Mabwysiadu Ffioedd Gwaredu Gwastraff DIY ac Adeiladu (Atodiad 3) yn ffurfiol ar ddyddiad cychwyn y contract;

(e) Mabwysiadu'r system archebu i fynd i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, sydd wedi'i datblygu'n fewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn barhaol;

(f) Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau i adolygu blwyddyn gyntaf y contract newydd;

(g) Bod y Cabinet yn nodi bod yn rhaid cytuno ar Gytundeb Rhwng Awdurdodau rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych a bod gofyn i'r gwasanaeth dderbyn cefnogaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi hwn.

8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad sy'n manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol gytunedig fel yr amlinellir isod –

- Mae'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22 yn £216.818 miliwn (£208.302 miliwn yn 2020/21)

- Rhagwelir gorwariant o £0.656 miliwn yn y cyllidebau gwasanaeth a corfforaethol
- Ceir gwerth £4.448 miliwn o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd cytunedig yn ymwneud â ffioedd, arbedion gweithredol, newidiadau mewn darparu gwasanaethau ac ysgolion
- Amlygir risgiau presennol a thybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, cyllidebau corfforaethol ac ysgolion, ynghyd ag effaith y coronafeirws a sefyllfa'r hawliadau ariannol i Lywodraethu Cymru
- Diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai, Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf, a diweddariad ar brosiectau mawr

Gofynnir hefyd i'r Cabinet gymeradwyo defnyddio'r Grant Cynhaliaeth Ysgolion, a ddyfarnwyd i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, yn unol ag argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol. Eglurodd y Pennaeth Cyllid y rhesymeg y tu ôl i'r gymeradwyaeth a geisir. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r Grant Cynhaliaeth Ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'w wario yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod modd i'r Cyngor gario arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer ysgolion ymlaen fel tanwariant. Mae'r rhestr o waith wedi'i flaenoriaethu wedi'i chytuno arni gyda'r Gwasanaeth Addysg, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, a'r Gwasanaethau Eiddo.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) Nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni;

(b) Cymeradwyo defnyddio'r Grant Cynhaliaeth Ysgolion, a ddyfarnwyd i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, yn unol ag argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol (a nodir yn Adran 6.7 yr adroddiad ac Atodiadau 5, 6 a 5 yr adroddiad).

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiad canlynol -

- Dyfarnu Contract:
  Ailddatblygu hen lyfrgell Ffordd Llys Nant, Prestatyn – symud yr eitem o fis Tachwedd i fis Ionawr
- Dyfarnu Contract:
  Cymeradwyo Fflyd Gwastraff newydd i gefnogi model newydd ar gyfer gwasanaethau – ychwanegu at raglen mis Ionawr
- Cynigion Cyllideb 2022/23 – i'w ychwanegu at raglen fis Ionawr
- Dyfarnu Contract:
  Cymeradwyo gwaith adeiladu cam 2 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff CSDd i gefnogir Model Gwastraff newydd – i'w ychwanegu at raglen mis Chwefror

PENDERFYNWYD *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am.